St. Kentigern
HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE
HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL

# YOUR HOSPICE
## Biannual Newsletter

WE'RE EXCITED TO CELEBRATE OUR 30TH ANNIVERSARY IN 2025




# HOSPICE NEWS
Spring/Summer **2025**

# UPCOMING EVENTS
## & DATES FOR YOUR DIARY

St. Kentigern Hospice — 1995 · 2025 · CELEBRATING 30 YEARS

## CELEBRATE OUR 30TH ANNIVERSARY

Join us for a variety of activities commemorating our 30th anniversary throughout 2025!




### 9:30–11:30AM EVERY MORNING!

Treat yourself to our breakfast at Caffi Cariad. **Book now on 07887477116**



## RHUDDLAN GOLF DAY
### 11TH JULY 2025

## ABERGELE GOLF DAY
### 12TH SEPTEMBER 2025

Join us for a 4 ball Amateur Golf Day to raise funds for St Kentigern Hospice.

## 30TH PARTY
### 3RD MAY 2025



Join us for a spectacular 30th Birthday Party at Pentre Mawr in Denbigh!

Expect live entertainment, delicious food, and a day to remember—all in support of our vital care.



Save the date and celebrate with us!

**RSVP TO BOOK!**

## COLOUR RUN
### JUNE 2025

Join us for a fun-filled, family-friendly event bursting with colour.

Walk, jog, or run through clouds of vibrant powder while raising vital funds for hospice care. **Don't miss out.**




## FIREWALK
### OCTOBER 2025

Following the sizzling success of 2024, returning for the third year is our sponsored firewalk! **Are you up for the challenge?**

Dying Matters

'Let's talk about it'

## DYING MATTERS WEEK 5 – 11TH MAY

## IT'S A KNOCKOUT
### 5TH JULY 2025

Teams of colleagues, families and friends battle it out to be crowned the winner of our **Summer Games**. Don't miss out—sign up today!




**Get in touch with our fundraising team on 01745 536020**

# CELEBRATING OUR 30th anniversary




Left to right, Mandy O'Hara, Victoria Grimster, Jane McGrath, Nichola McGowan, Joyce Bellingham

This year, we are proud to celebrate 30 years of providing compassionate care, made possible by the unwavering support of our wonderful community.

In this edition of our newsletter, we are delighted to share updates on the impactful work being done by our team, the inspiring stories of the people we support, and the exciting fundraising events planned throughout the year. Plus, get a sneak peek at our brand-new Preloved Warehouse in Flint opening soon, offering sustainable shopping while supporting local hospice care.

Once again, we want to extend our heartfelt thanks to each and every one of our supporters for being an essential part of our St Kentigern Hospice community. Your support allows us to continue offering the highest quality of care, comfort, and support to our patients and their families.

*From our Executive Management Team*

## IN THIS ISSUE

Page 1 ...... Upcoming Events
Page 2 ...... Welcome Volunteer Story
Page 2 ...... Volunteer Story
Page 4 ...... Discover our Wellbeing Hwb
Page 5 ...... Our History to Date
Page 6 ...... Our Timeline
Page 7-8 ...... Our New Preloved Warehouse
Page 9 ...... Coffee & a Catch-Up
Page 10 ...... Hospice Champion
Page 11 ...... Caffi Cariad

## St Kentigern Hospice

## CONTACT US

**Tel:** 01745 585221 **Web:** www.stkentigernhospice.org.uk
**General Enquiries:** mail@stkentigernhospice.org.uk
**Fundraising Enquiries:** fundraising@stkentigernhospice.org.uk
**Registered Charity Number:** 519931

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

# VOLUNTEER STORY

## Meet GLYNIS



My first introduction to hospice care came from my late dear mother-in-law Jean Craven. She was one of the first volunteers when St. Kentigern opened and loved every minute helping in day care and on the reception desk. Nothing would stop her from turning up for her shift!

1995 2025 PENBLWYDD ANNIVERSARY

stories for 30 years

In 2001 when I was diagnosed with cancer my mother-in-law persuaded me to became a day patient whilst receiving my chemo and radiotherapy. Initially I was sceptical, but that was soon dismissed when I felt the love and support all around me.

During this time I relocated to Llandudno where I made long-lasting friends during my weekly visits. The hospice was a refuge where we could talk freely about anything, no topic was off the table. We would take our wigs off and nobody would bat an eyelid.

The activities included arts and crafts, aromatherapy, nail treatments, massage and a sing song. Lunch was provided then and even a sherry if you wanted!



> "The staff couldn't have been kinder, more generous, sensitive or caring.

When I was thankfully given the all clear from my cancer, I became a volunteer. Then when I returned to live in St. Asaph in 2003 I applied to become a volunteer at St Kentigern.

I am part of a group known as "Cancer Chums" which was formed due to our cancer diagnosis. We meet once a month for lunch. During the past 12+ years we have had numerous fundraising events which have benefited both St Kentigern and St David's Hospice.




The benefits of Hospice care are so great and numerous that it is very difficult to measure, but I know my experience and memories of the hospice, its staff and other volunteers will always be remembered with fondness and grateful thanks.

*Glynis x*

# DISCOVER OUR WELLBEING HWB



**We are developing and will be introducing a new outpatient 5 day service, increasing the number of patients and their families who can support.**

Our Wellbeing Hwb is a welcoming space designed to support the physical, emotional, and spiritual needs of our patients, carers, and families. With an exciting weekly schedule, the hwb offers a range of therapeutic activities, support groups, and expert-led clinics.

New services will include:

- A nutritional clinic, a dementia support group for patients and their families, horticultural therapy, disease education and symptom management, mindfulness, a motor neuron disease support group for patients and families, nails and natter, mens shed group, benefits and financial advice, Children and family group. **Keep an eye out for service start dates.**



# OUR HISTORY TO DATE












**1986**

**29th April 1986 – Inaugural Meeting at Bodelwyddan Castle**

**1991**

**1991 – Prestatyn Shop opened (1st Hospice Shop)**

**1995**

**1995 – Day Centre officially opened to the public**

For 30 years, St Kentigern Hospice has been at the heart of our community, providing vital care, comfort, and support to patients and their families during life's most challenging times. This year, we celebrate three decades of making a difference and we invite you to join us in marking this incredible milestone.

Since opening our doors in 1995, St Kentigern Hospice has grown to become a beacon of hope and compassion. Every year, we provide specialist palliative care services to hundreds of individuals facing life-limiting illnesses, ensuring dignity, comfort, and the highest quality of care. None of this would have been possible without the unwavering support of our community, donors, and volunteers.

As we reflect on the past three decades, we're reminded that together we have created a sanctuary of care and compassion for our community. Now, we look to the future with hope and determination, knowing that, with your help, we can continue this legacy.
















## 2000

**2000 – Agor Uned Cleifion Mewnol gyda 8 gwely newydd ger y Ganolfan Ddydd**

## 2020

**2020 – Ail-agorodd yr uned cleifion mewnol newydd i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2020 gan ddarparu gofal 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.**

## 2025

**2025 - Hosbis St. Kentigern yn dathlu 30 mlynedd o ofal**

It's impossible to show our gratitude for the love and commitment our community show us. We feel so lucky to be part of such an amazing community and are humbled by each and every single penny donated to our cause. We exist to make a very real and positive difference to our community but we only exist because of you.



Help us make our 30th Anniversary unforgettable. Join us in celebrating this milestone and ensuring that St Kentigern Hospice remains a source of comfort and care for those who need us most.

1995 2025 • CELEBRATING 30 YEARS •

## DONATE £30

Donate £30 to celebrate 30 years of hospice care.

## DONATE £60

Double the impact with £60, helping us expand our reach and resources.

## DONATE £300

Donate £300 to make an impact that lasts for 30 more years.

# BUILDING YOUR NEW PRELOVED WAREHOUSE

**We are embracing the season of Spring with some exciting news.**

With the support of a generous grant, we have been able to expand our retail presence to a new Preloved Warehouse in Flint.

## OPENING SOON IN FLINT!

For many years, our charity shops have played a crucial role in raising funds to provide essential care and support to our patients and their families. By opening this warehouse, we are not only expanding our retail presence but also creating an exciting space for our community to shop sustainably while supporting hospice care.

Once open, the warehouse will offer a wide range of high-quality, pre-loved items, from clothing and accessories to furniture, homeware, and more.





The preparation of this warehouse would not have been possible without our donors, shoppers, volunteers, and supporters. Your contributions make a real impact, allowing us to expand our services and ensure that everyone facing life-limiting illnesses receives the care they deserve.

**Our address:**
**Flintshire Retail Park,**
**Flint, CH6 5GB**

**VISIT US!**

# WE KNOW YOU WANT A LOOK

## Transforming the Preloved Warehouse

Our retail team has been hard at work transforming the space into a welcoming and vibrant shopping destination.

It will be the perfect place for bargain hunters and those looking to shop more sustainably while making a difference in the lives of those in our care. Every purchase made at the Preloved Warehouse will directly support St Kentigern Hospice, helping us continue to provide compassionate, specialist palliative care to individuals across the region.



As we move closer to opening, we are calling on our community to get involved in any way they can. Whether you're looking to volunteer in the warehouse, donate quality second-hand items, or simply spread the word, your support is invaluable.

Volunteers are the backbone of our retail operations, and we welcome anyone interested in joining our passionate team. Contact our Volunteer Coordinator on 01745 585221. Keep an eye on our website and social media channels for updates, sneak peeks, and exclusive opening day events.

## WE NEED YOU!

VOLUNTEER WITH US

# COFFEE & A CATCH-UP

**We sat down with one of our volunteers Mona in Caffi Cariad to discuss her experience at St Kentigern Hospice. With a coffee in hand this is what she had to say...**

**Firstly, can you introduce yourself and tell us what you do as a volunteer at St Kent's?**

What do you want to know? ...Well I'm Mona, I have volunteered at Kent's for about 26 years. I started in the summer of 99. I volunteer at the hospice itself and also at the PreLoved Warehouse with the retail team. At the Hospice I spend my time helping on the main reception and also on the inpatient unit ... I just love it there. On Monday afternoons I work the till in the PreLoved Warehouse. I just love spending my week busy and enjoy supporting St.Kents.

**What made you get involved with St Kents in the first place?**

Well I had to take early retirement from my nursing job and I was too young not to do anything. I've always been very fond of St.Kents, It's such an important establishment. So if I was able to help and support it ... then I just knew I had to really.

**What was one of your favourite memories over the years of volunteering at St Kent's?**

.. that's a trick question .. honestly? Well all of it. I honestly enjoy every second.

**What keeps you excited and wanting to continue volunteering with us year after year?**

Well, I just feel like ... you're giving something back. I used to work in the caregiving profession, and I feel like I can carry on giving. It's so special to just see people happy and that ... you know ... it's nice just to be there to care for people really and to know you are doing good.

**Where do you hope to see the hospice in the next 30 years?**


Open and still doing what they do best... you know just for the hospice to still be serving our area and the community.



**Thank you for volunteering Mona!**

# HOSPICE CHAMPION

## WHICH CHALLENGE WILL YOU CHOOSE?







**Terms & Conditions**

Players must be aged 16 or over. Cheques payable to 'St Kentigern Hospice.' Entries received after the closing date will be treated as donations. Promoters: St Kentigern Promotions Ltd. Company Number: 3265191. Registered office: St Kentigern Promotions Ltd, St Kentigern Hospice, Upper Denbigh Road, St Asaph, Denbighshire, LL17 0RS. Responsible person: Nichola McGowan Telephone: 01745 775415. Licensed by the Gambling Commission. www.gamblingcommission.gov.uk

# Welcome to CAFFI CARIAD



## WE'RE PROUD TO OFFER A WARM AND WELCOMING SPACE FOR SPECIAL GATHERINGS.

At Caffi Cariad we're proud to offer a warm and welcoming space for special gatherings. Caffi Cariad is available for private events, whether you're hosting a small family get-together, a corporate function, or a community gathering. Our team will work with you to create a menu to suit your preferences, featuring delicious homemade dishes and locally sourced ingredients.

By choosing Caffi Cariad for your event, you are also helping to support St Kentigern Hospice. Every booking directly contributes to the vital care and support we provide to local people and their families facing life-limiting illnesses.

Let us help make your event memorable and hassle-free! Contact us today to learn more about availability, pricing, and how we can customize our space to fit your needs. To hire for an event please contact our Caffi Cariad on 07887477116 or for meeting room hire please contact our Operations Manager on 01745 585221 or email j.bellingham@stkentigernhospice.org.uk

## HOST AN EVENT



**THANK YOU** for supporting Caffi Cariad—where every event helps make a difference.

St. Kentigern
HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE
HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL

# EICH cylchlythyr hosbis chwe-misol

RYDYM YN EDRYCH YMLAEN YN FAWR I DDATHLU EIN PEN-BLWYDD YN 30 OED YN 2025




## NEWYDDION YR HOSBIS

Gwanwyn/Haf **2025**

# DIGWYDDIADAU I DDOD


## A DYDDIADAU AR GYFER EICH DYDDIADUR

St. Kentigern Hospice

1995 2025 • CELEBRATING 30 YEARS •

### DATHLWCH EIN PEN-BLWYDD YN 30 OED

Ymunwch â ni am amrywiaeth o weithgareddau trwy gydol 2025 i ddathlu ein pen-blwydd yn 30 oed!




### 9:30–11:30 BRECWAST BOB BORE!

Tretiwch eich hun i'n brecwast yn Caffi Cariad. **Archebwch nawr ar 07887477116**



### DIWRNOD GOLFF RHUDDLAN

11 GORFFENNAF

### DIWRNOD GOLFF ABERGELE

12 MEDI 2025

Ymunwch â ni am Ddiwrnod Golff Amatur 4-pêl i godi arian ar gyfer Hosbis Sant Cyndeyrn.

### PARTI YN 30 OED

3YDD MAI 2025



Ymunwch â ni am Barti Pen-blwydd 30 oed ysblennydd ym Mhentre Mawr yn ninbych!

Bydd adloniant byw a bwyd blasus, a bydd yn ddiwrnod i'w gofio – i gyd i gefnogi ein gofal hanfodol.

Nodwch y dyddiad a dathlwch gyda ni!



**ATEBWCH I FWCIO LLE!**




### MEHEFIN 2025

Ymunwch â ni am ddigwyddiad llawn hwyl a lliw ar gyfer y teulu cyfan!

Cerdded, loncian, neu redeg trwy gymylau o bowdr llachar wrth godi arian hanfodol ar gyfer gofal hosbis. **Peidiwch â cholli allan.**




### CERDDED DRWY DÂN

HYDREF 2025

Yn dilyn llwyddiant ysgubol digwyddiad 2024, bydd y digwyddiad noddedig hwn yn dychwelyd am y trydydd tro! **Ydych chi'n barod am yr her?**

Dying Matters
'Let's talk about it'

### DYING MATTERS WEEK 5 – 11 MAI

### IT'S A KNOCKOUT

5 GORFFENNAF 2025

Timau o gydweithwyr, teuluoedd a ffrindiau gystadlu i sicrhau coron enillydd ein Gemau Haf. **Peidiwch â cholli allan.**




**Cysylltwch â'n tîm codi arian ar 01745 536020**

# DATHLU EIN pen-blwydd yn 30 oed




O'r chwith i'r dde, Mandy O'Hara, Victoria Grimster, Jane McGrath, Nichola McGowan, Joyce Bellingham

Eleni, rydym yn falch o ddathlu 30 mlynedd o ddarparu gofal tosturiol, a wnaed yn bosibl gan gefnogaeth ddiwyro ein cymuned wych.

Yn y rhifyn hwn o'n cylchlythyr, rydym yn falch iawn o rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith effeithiol sy'n cael ei wneud gan ein tîm, straeon ysbrydoledig y bobl rydyn ni'n eu cefnogi, a'r digwyddiadau codi arian cyffrous a gynlluniwyd trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, cewch gipolwg ar ein Warws Caru Eisoes newydd sbon yn y Fflint sy'n agor yn fuan, gan gynnig siopa cynaliadwy tra'n cefnogi gofal hosbis lleol.

Unwaith eto, hoffem ddiolch o galon i bob un o'n cefnogwyr am fod yn rhan hanfodol o'n cymuned Hosbis St Kentigern. Mae eich cefnogaeth yn ein galluogi i barhau i gynnig gofal, cysur a chefnogaeth o'r ansawdd uchaf i'n cleifion a'u teuluoedd.

*Gan ein tîm rheoli gweithredol*

## YN Y RHIFYN HWN

Page 1 ...... Digwyddiadau i ddod Croeso
Page 2 ...... Croeso
Page 2 ...... Storïau Gwirfoddolwyr
Page 4 ...... Darganfyddwch Ein Hwb Lles
Page 5 ...... Ein Hanes Hyd Yma
Page 6 ...... Ein Llinell Amser
Page 7-8 ...... Warws Caru Eisoes Newydd
Page 9 ...... Coffi a Dal i Fyny
Page 10 ...... Hyrwyddwr Hosbis
Page 11 ...... Caffi Cariad

## Hosbis Sant Cyndeyrn

## CYSYLLTWCH Â NI

**Ffôn:** 01745 585221 **Gwe:** www.stkentigernhospice.org.uk
**Ymholiadau Cyffredinol:** mail@stkentigernhospice.org.uk
**Ymholiadau Codi Arian:** fundraising@stkentigernhospice.org.uk
**Rhif Elusen Gofrestredig:** 519931

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

# Dyma GLYNIS

1995 2025 PENBLWYDD ANNIVERSARY

stori am 30 mlynedd



Deuthum i gysylltiad am y tro cyntaf gyda gofal hosbis trwy fy niweddar annwyl fam-yng-nghyfraith, Jean Craven. Roedd hi'n un o'r gwirfoddolwyr cyntaf pan agorodd St. Kentigern ac roedd wrth ei bodd yn helpu gyda gofal dydd ac ar y ddesg dderbynfa. Haul neu hindda, byddai bob amser yn ymddangos ar gyfer ei shifft!

Yn 2001 pan gefais ddiagnosis o ganser, perswadiodd fy mam-yng-nghyfraith fi i ddod yn glaf dydd tra'n derbyn fy nghemotherapi a radiotherapi. I ddechrau roeddwn i'n amheus, ond diflanodd yr amheuon hyn pan deimlais y cariad a'r gefnogaeth o'm cwmpas.

Yn ystod y cyfnod hwn symudais i Landudno lle gwnes ffrindiau da. Roedd yr hosbis yn lloches lle gallem siarad yn rhydd am unrhyw beth. Byddem yn tynnu ein wigiau i ffwrdd ac ni fyddai neb yn cymryd dim sylw ohonom yn gwneud hynny.

Roedd y gweithgareddau yn cynnwys celf a chrefft, aromatherapi, triniaethau ewinedd, tylino a chanu caneuon. Darparwyd cinio i ni a hyd yn oed sieri os oedden ni am gael un!



> "Ni allai'r staff fod wedi bod yn fwy caredig, hael, sensitif na gofalgar.

Pan gefais wybod fy mod yn glir o ganser ddychwelais i fyw yn Llanelwy yn 2003. Fe wnes i gais i fod yn wirfoddolwraig yn St Kentigern.

Rwy'n rhan o grŵp o'r enw "Cancer Chums" a ffurfiwyd oherwydd ein bod i gyd wedi cael diagnosis o ganser. Rydyn ni'n cwrdd unwaith y mis am ginio. Yn ystod y 12+ mlynedd diwethaf rydym wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau codi arian ar gyfer Hosbis St Kentigern.




Mae manteision gofal hosbis mor fawr a niferus fel ei bod hi'n anodd iawn eu mesur, ond rwy'n gwybod y byddaf yn trysori ac yn ddiolchgar am fy mhrofiad a'm hatgofion o'r hosbis, ei staff a'r gwirfoddolwyr eraill am byth.

Glynis x

# DARGANFYDDWCH EIN HWB LLES



**Rydym yn datblygu a byddwn yn cyflwyno gwasanaeth 5 diwrnod newydd i gleifion allanol, gan gynyddu nifer y cleifion a'u teuluoedd sy'n gallu cefnogi.**

Mae ein Hwb Lles yn ofod croesawgar sydd wedi'i gynllunio i gefnogi anghenion corfforol, emosiynol ac ysbrydol ein cleifion, gofalwyr a theuluoedd. Gydag amserlen wythnosol gyffrous, mae'r ganolfan yn cynnig ystod o weithgareddau therapiwtig, grwpiau cymorth, a chlinigau dan arweiniad arbenigwyr.

Bydd gwasanaethau newydd yn cynnwys:

- Clinig maeth, grŵp cymorth dementia i gleifion a'u teuluoedd, therapi garddwriaeth, addysg clefydau a rheoli symptomau, ymwybyddiaeth ofalgar, grŵp cymorth clefyd niwronau motor ar gyfer cleifion a theuluoedd, grŵp ewinedd a sgwrs (Nails and Natter), grŵp sied dynion, budd-daliadau a chyngor ariannol, grŵp plant a theuluoedd. **Cadwch lygad am ddyddiadau dechrau'r gwasanaeth.**

## MAE EIN GOFAL YN DECHRAU GYDA CHI




FFONIWCH EIN TÎM 01745 583170

ARCHEBU CASGLIAD AM DDIM HEDDIW

# OUR HISTORY TO DATE













**1986**

**29 Ebrill 1986 – Cyfarfod Agoriadol yng Nghastell Bodelwyddan**

**1991**

**1991 – Agor y siop ym Mhrestatyn (siop hosbis gyntaf)**

**1995**

**1995 – Agor Canolfan Ddydd ar safle Ysbyty H M Stanley, Llanelwy**

Ers 30 mlynedd, mae Hosbis St Kentigern wedi bod wrth galon ein cymuned, gan ddarparu gofal, cysur a chefnogaeth hanfodol i gleifion a'u teuluoedd yn ystod amseroedd mwyaf heriol bywyd. Eleni, rydyn ni'n dathlu tri degawd o wneud gwahaniaeth, ac yn eich gwahodd i ymuno â ni i nodi'r garreg filltir anhygoel hon.

Ers agor ein drysau ym 1995, mae Hosbis St Kentigern wedi darparu gobaith a thosturi i filoedd. Bob blwyddyn, rydym yn darparu gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol i gannoedd o unigolion sy'n wynebu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, gan sicrhau urddas, cysur, a'r ansawdd gofal uchaf posib iddynt. Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ddiwyro ein cymuned, rhoddwyr a gwirfoddolwyr.

Wrth i ni fyfyrio ar y tri degawd diwethaf, cawn ein hatgoffa ein bod gyda'n gilydd wedi creu noddfa o ofal a thosturi i'n cymuned. Nawr, edrychwn i'r dyfodol gyda gobaith a phenderfyniad, gan wybod, gyda'ch cymorth chi, y gallwn barhau â'r etifeddiaeth hon.
















# 2000

**2000 – Agor Uned Cleifion Mewnol gyda 8 gwely newydd ger y Ganolfan Ddydd**

# 2020

**2020 – Ail-agorodd yr uned cleifion mewnol newydd i'r cyhoedd ym mis Mawrth 2020 gan ddarparu gofal 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.**

# 2025

**2025 - Hosbis St. Kentigern yn dathlu 30 mlynedd o ofal**

Mae'n amhosibl dangos ein diolchgarwch am y cariad a'r ymrwymiad y mae ein cymuned yn ei ddangos tuag atom. Rydym yn teimlo mor lwcus i fod yn rhan o gymuned mor anhygoel ac yn ddiolchgar am bob ceiniog a roddir i'n hachos. Rydym yma i wneud gwahaniaeth real a chadarnhaol iawn i'n cymuned ac yn bodoli dim ond oherwydd chi.



Helpwch ni i wneud ein pen-blwydd yn 30 oed yn fythgofiadwy. Ymunwch â ni i ddathlu'r garreg filltir hon a sicrhau bod Hosbis St Kentigern yn parhau i fod yn ffynhonnell o gysur a gofal i'r rhai sydd ein hangen fwyaf.

1995 2025 • CELEBRATING 30 YEARS •

## Rhowch £30

Rhowch £30 i ddathlu 30 mlynedd o ofal hosbis.

## Rhowch £60

Dyblwch yr effaith drwy roi £60, gan ein helpu i ehangu ein cyrhaeddiad a'n hadnoddau.

## Rhowch £300

Rhowch £300 i gael effaith fydd yn para am 30 mlynedd arall.

# ADEILADU EICH CARU EISOES NEWYDD

**Dyma newyddion cyffrous ar drothwy'r gwanwyn ...**

Gyda chymorth grant hael, rydym wedi gallu ehangu ein presenoldeb manwerthu i Warws Preloved newydd yn y Fflint.

## YN AGOR YN FUAN YN FFLINT

Ers blynyddoedd lawer, mae ein siopau elusen wedi chwarae rhan hanfodol wrth godi arian i ddarparu gofal a chefnogaeth hanfodol i'n cleifion a'u teuluoedd. Trwy agor y warws hwn, rydym nid yn unig yn ehangu ein presenoldeb manwerthu ond hefyd yn creu gofod cyffrous i'n cymuned siopa'n gynaliadwy wrth gefnogi gofal hosbis.

Unwaith y bydd ar agor, bydd y warws yn cynnig ystod eang o eitemau o ansawdd uchel caru eisoes – o ddillad ac ategolion i ddodrefn, nwyddau cartref a mwy.






Ni fyddai ehangu ein siopau manwerthu wedi bod yn bosibl heboch chi, ein rhoddwyr, siopwyr, gwirfoddolwyr a chefnogwyr. Mae eich cyfraniadau yn cael effaith wirioneddol, gan ein galluogi i ddatblygu ein gwasanaethau a sicrhau bod pawb sy'n wynebu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd yn derbyn y gofal maen nhw'n ei haeddu.

**Ein cyfeiriad:**
**Flintshire Retail Park,**
**Flint, CH6 5GB**

**YMWELWCH Â NI!**

# RYDYN NI'N GWYBOD EICH BOD CHI EISIAU GOLWG

## Trawsnewid y warws caru eisoes

Mae ein tîm manwerthu wedi bod yn gweithio'n galed i drawsnewid y gofod yn gyrchfan siopa groesawgar a bywiog.

Bydd yn lle perffaith i'r rhai sydd am gael bargen ac sy'n awyddus i siopa'n fwy cynaliadwy tra'n gwneud gwahaniaeth i fywydau'r rhai sydd yn ein gofal. Bydd popeth a brynir yn y Warws Caru Eisoes yn cefnogi Hosbis St Kentigern yn uniongyrchol, gan ein helpu i barhau i ddarparu gofal lliniarol tosturiol, arbenigol i unigolion ledled y rhanbarth.

St. Kentigern Hospice
OUR CARE STARTS WITH YOU



Wrth i'r dyddiad agor agosáu, rydym yn awyddus i'n cymuned gymryd rhan mewn unrhyw ffordd y gallant. P'un a ydych chi am wirfoddoli yn y warws, rhoi eitemau ail-law o safon, neu ledaenu'r gair am y warws, bydd eich cefnogaeth yn amhrisiadwy.

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn ein gweithrediadau manwerthu, ac rydym yn croesawu unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â'n tîm angerddol. Cysylltwch â'n Cydlynydd Gwirfoddolwyr ar 01745 585221. Cadwch lygad ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol am ddiweddariadau, cipolygon, a digwyddiadau diwrnod agoriadol unigryw.


LOVE

**MAE EICH ANGEN**

**GWIRFODDOLWCH GYDA NI**

**CHI ARNOM NI**

# COFFI
# A DAL I FYNY



**Yn ddiweddar fe wnaethon ni eistedd i lawr gydag un o'n gwirfoddolwyr, Mona, yn Caffi Cariad i drafod ei phrofiad fel gwirfoddolwraig yn Hosbis St Kentigern.**

### Yn gyntaf, allwch chi gyflwyno eich hun a dweud wrthym beth rydych chi'n ei wneud fel gwirfoddolwraig yn Hosbis St. Kentigern?

Beth ydych chi am ei wybod? ... Wel Mona ydw i, rydw i wedi gwirfoddoli yn St. Kentigern ers tua 26 mlynedd. Fe ddechreuais yn haf 99. Rwy'n gwirfoddoli yn yr hosbis ei hun a hefyd yn y Warws Caru Eisoes gyda'r tîm manwerthu. Yn yr hosbis rwy'n treulio fy amser yn helpu ar y brif dderbynfa a hefyd ar yr uned cleifion mewnol ... Dwi wrth fy modd yno. Ar brynhawn Llun rwy'n gweithio'r til yn y Warws Caru Eisoes. Rydw i wrth fy modd yn treulio fy wythnos yn brysur ac yn mwynhau cefnogi St. Kentigern.

### Beth wnaeth i chi gymryd diddordeb yn St. Kentigern yn y lle cyntaf?

Wel bu'n rhaid i mi ymddeol yn gynnar o'm swydd nyrsio ac roeddwn i'n rhy ifanc i wneud dim. Rydw i wastad wedi bod yn hoff iawn o St. Kentigern – mae'n sefydliad mor bwysig. Felly os oeddwn i'n gallu ei helpu a'i gefnogi, yna roeddwn i'n gwybod bod yn rhaid i mi wneud hynny.

### Beth yw'ch hoff atgof o wirfoddoli yn St. Kentigern?

Cwestiwn anodd ar y naw. I fod yn onest – y cyfan. Rwy'n wirioneddol wedi mwynhau pob eiliad.

### Beth sy'n eich cadw chi'n llawn brwdfrydedd ac eisiau parhau i wirfoddoli gyda ni flwyddyn ar ôl blwyddyn?

Wel, rwy'n teimlo fel ... rydych chi'n rhoi rhywbeth yn ôl. Roeddwn i'n arfer gweithio fel gofalwraig, ac rwy'n teimlo fy mod i'n gallu parhau i roi. Mae mor arbennig gweld pobl yn hapus a bod ... dach chi'n gwybod... mae'n braf bod yno i ofalu am bobl a gwybod eich bod chi'n gwneud daioni.

### Beth yw'ch gobeithion chi ar gyfer yr hosbis am y 30 mlynedd nesaf?

Rydw i am iddo barhau i fod ar agor a dal ymlaen i wneud yr hyn mae'n ei wneud orau, sef gwasanaethu ein hardal a'r gymuned.



**Diolch am wirfoddoli Mona!**

# HYRWYDDWR HOSBIS

## PA HER FYDDECH CHI'N EI DEWIS?

DECHRAU

**EBRILL**
27
London Marathon

**MAI**
DYDD SUL 18FED
Great North Run

**MEHEFIN**
DYDD SUL 18FED
Chester Half Marathon

**GORFFENNAF**
CHWARAE
The Three Peaks

**AWST**
DYDD SUL 3YDD
Snowman Duathlon & Triathlon

**MEDI**
DYDD SUL 14EG
Cycle from London to Brighton

**HYDREF**
DYDD SADWRN 4YDD
LLANDUDNO TRIATHLON & DUATHLON

**TACHWEDD**
Rholiwch y dis
DEWIS

# Raffl y Gwanwyn

## £2,000

FFÔN: 01745 775415

DYDDIAD TYNNU'R RAFFL: 19TH JUNE

**Telerau ac Amodau**

Rhaid i chwaraewyr fod yn 16 oed neu'n hŷn. Sieciau'n daladwy i 'St Kentigern Hospice'. Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu trin fel rhoddion. Hyrwyddwr: St Kentigern Promotions Cyf. Rhif Cwmni: 3265191. Swyddfa gofrestredig: St Kentigern Promotions Cyf., Hosbis St Kentigern, Upper Denbigh Road, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0RS. Person cyfrifol: Nichola McGowan Ffôn: 01745 775415. Wedi'i drwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae. www.gamblingcommission.gov.uk

# CROESO I CAFFI CARIAD







## RYDYM YN FALCH O GYNNIG LLE CYNNES A CHROESAWGAR AR GYFER CYFARFODYDD ARBENNIG.

Mae Caffi Cariad ar gael ar gyfer digwyddiadau preifat, p'un a ydych chi'n cynnal cyfarfod teuluol bach, digwyddiad corfforaethol, neu gyfarfod cymunedol. Bydd ein tîm yn gweithio gyda chi i greu bwydlen sy'n eich gweddu chi gan gynnwys prydau cartref blasus a chynhwysion lleol.

Drwy ddewis Caffi Cariad ar gyfer eich digwyddiad, rydych hefyd yn helpu i gefnogi Hosbis Sant Kentigern. Mae pob archeb yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gofal a'r gefnogaeth hanfodol rydyn ni'n ei ddarparu i bobl leol a'u teuluoedd sy'n wynebu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd.

Gadewch i ni eich helpu i wneud eich digwyddiad yn gofiadwy a llwyddiannus! Cysylltwch â ni heddiw i drafod dyddiadau, prisiau a sut y gallwn addasu ein gofod i gwrdd â'ch anghenion. I logi gofod ar gyfer digwyddiad, cysylltwch â Caffi Cariad ar 07887477116 neu i logi ystafell gyfarfod, cysylltwch â'n Rheolwr Gweithrediadau ar 01745 585221 neu e-bostiwch j.bellingham@stkentigernhospice.org.uk

## CYNNAL DIGWYDDIAD







**DIOLCH I CHI** am gefnogi Caffi Cariad lle mae pob digwyddiad yn helpu i wneud gwahaniaeth.